# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-13-08)

Dyddiad: 20 Mai 2008
Amser : 8.15am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC155 - Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar" "6 Mai 2008". "

Yn dod i rym ar 29 Mai 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

**SLC159 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Mai 2008.

Fe'u gosodwyd ar

" "9 Mai 2008. Yn dod i rym ar 3 Mehefin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi yng Nghymru Erthyglau 3 a 4 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC sy'n gosod rheolau am iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu rhwymedigaethau o ran anifeiliaid neu ddofednod o fangreoedd lle yr amheuir neu lle y cadarnheir bod clwy clasurol y moch, clwy Affricanaidd y moch, clefyd pothellog y moch, rinderpest, pla'r defaid a'r geifr neu glefyd Newcastle yno, a'r ardal heintiedig a/neu'r parth gwarchod a'r parth goruchwylio a roddir ar waith pan gadarnheir un o'r clefydau hyn. Maent hefyd yn creu rhwymedigaethau a gwaharddiadau o ran y cig sy'n dod oddi wrth yr anifeiliaid a'r dofednod hyn.

**Eitem 2.2: Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25: Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-**

**SLC156 - Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-**

Gweithdrefn Cynulliad Arbennig (Rheol Sefydlog 25). Fe'i gwnaed 200- . Yn dod i rym 200-.

**Eitem 3: Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008**

Jenny Randerson AC

SLC(3)-13-2008(p1) - Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008 a Memorandwm Esboniadol

Papur gan Wasanaethau Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a drafodwyd ar 15 Ebrill

SLC(3)-08-2008(p1)

**Eitem 4: Unrhyw fater arall**

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**